**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**15fed Hydref 2012**

**YMGYNGHORI AR YR AMCANION GWELLA AR GYFER 2013-14**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Cyflwyno cynnwys y ddogfen ymgynghori ddrafft ar yr Amcanion Gwella ar gyfer 2013-14 er mwyn cael cymeradwyaeth yr aelodau.

## Y Cefndir

2 Mae'n ofynnol i awdurdodau gwella Cymreig wneud trefniadau er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus a gosod Amcanion Gwella iddynt eu hunain bob blwyddyn, a hynny ar ôl ymgynghori'n gyntaf ar yr amcanion hynny gyda chynrychiolwyr partïon sydd â buddiant. Mae hyn yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

3 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub lunio a chyhoeddi cynllun gwella bob blwyddyn, cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol yn ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr yn y flwyddyn cyn y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi. Mae hyn yn unol â Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2012.

## Gwybodaeth

4 Yn ei gyfarfod ar 16 Gorffennaf 2012, cytunodd y Panel Gweithredol ar aelodaeth Gweithgor y Cynllun Gwella (CG), a chymeradwyo amserlen ar gyfer llunio a chyhoeddi Cynllun Gwella'r Awdurdod ar gyfer 2013-14 er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol.

5 Mae Gweithgor y CG yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried gwybodaeth a thrafod datblygiad Amcanion Gwella'r Awdurdod ar gyfer 2013-14. Mae hefyd yn ystyried sut y gellid symud ymlaen i ddatblygu Amcanion Gwella yn y dyfodol.

6 Yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2012, bu'r Panel Gweitheredol yn ystyried argymhellion Gweithgor y CG ar yr Amcanion Gwella ar gyfer 2013-14 a gwaith paratoi arall i fwydo i mewn i'r Amcanion Gwella yn y dyfodol.

7 Erbyn hyn, mae'r rhain wedi eu rhoi at ei gilydd ar ffurf dogfen ddrafft (Atodiad 1) a fydd yn cael ei throi'n gyhoeddiad dwyieithog deniadol i'w ddefnyddio rhwng nawr a dechrau Ionawr 2013 i gasglu barn gan y cyhoedd a phartïon eraill sydd â buddiant.

8 Yna, bydd y sylwadau a ddaw i law yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn yn cael eu hystyried gan yr Awdurdod cyn mabwysiadu'n derfynol yr Amcanion Gwella ar gyfer 2013-14 cyn diwedd Mawrth 2013.

**Argymhellion**

9 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo cynnwys y ddogfen 'Ein Cynlluniau ar gyfer gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru' at ddiben ymgynghori.

DRAFT

[BRAND ATAGC]

# Ein cynlluniau ar gyfer gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru

## Gwybodaeth ac ymgynghoriad cyhoeddus ar yr amcanion gwella arfaethedig ar gyfer 2013-14 a'r tu hwnt

DRAFT

**Ymgynghoriad Cyhoeddus**
**15fed Hydref 2012 hyd at 7fed Ionawr 2013**

# CYNNWYS


| | Tud. |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Crynodeb | 5 |
| Cwestiynau'r ymgynghoriad | 6 |
| Adran 1 | |
| Gwybodaeth allweddol am Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | 7 |
| Proffil o Ogledd Cymru | 8 |
| Adran 2 | |
| Proffilio Risgiau'r Dyfodol | 12 |
| Amcanestyniad o Risgiau Demograffig | 13 |
| Amcanestyniad o Risgiau Ffordd o Fyw | 20 |
| Amcanestyniad o Risgiau Ariannol | 22 |
| Amcanestyniad o Risgiau yn seiliedig ar yr Ardal | 24 |
| Adran 3 | |
| Gwneud Gwelliannau a Lleihau Risg | 28 |
| Lleihau Risg a Gwella yn 2013-14 | 29 |
| Ymateb i Danau mewn Anheddau | 31 |
| Lleihau Risg a Gwella yn 2014-15 | 36 |
| Adran 4 | |
| Cyfeiriadau | 38 |


DRAFFT


Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL18 0JJ

01745 535 250 www.gwastan-gogcymru.org.uk

# CYFLWYNIAD

Mae'r risgiau sy'n wynebu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn newid. Fel llawer o sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, mae'r Awdurdod yn wynebu'r siawns o gynnydd posib mewn galw, ond â llai o arian.

Yn debyg i'r modd y mae unigolion yn mynd ati i ailasesu'r ffordd y maent yn byw ac i adolygu eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol, mae'r Awdurdod hefyd yn gorfod ailystyried sut y mae'n darparu ac yn cyflwyno ei wasanaethau fel ei fod yn y sefyllfa orau i ddarparu gwasanaethau effeithiol o safon uchel yng Ngogledd Cymru dros yr 20 neu'r 30 mlynedd nesaf.

Nod yr Awdurdod yw darparu gwasanaethau sy'n gwella'n barhaus, a hynny yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon bosib gyda'r arian sydd ar gael. Fel arfer, mae hyn yn golygu cyflwyno ffyrdd newydd ac arloesol o wneud pethau. Un elfen pwysig o'r gwelliant parhaol hwnnw yw'r pwyslais mae'r Awdurdod yn ei roi ar gydweithio â sefydliadau eraill yn y sector gyhoeddus. Wrth wneud hyn, gall yr Awdurdod sicrhau nifer o welliannau gwirioneddol effeithiol yn ei ganlyniadau (ee wrth weithio ag ystod o sefydliadau eraill yng Ngogledd Cymru i adnabod a chefnogi pobl sy'n agored i niwed) ac yn ei effeithlonrwydd (ee wrth weithio â Heddlu Gogledd Cymru yn y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd, i reoli ein hadeiladau ac wrth daclo'r broblem llosgi bwriadol).

Mae'r Awdurdod yn gwbl ymrwymedig i gynyddu'r cydweithio a wneir lle bynnag bo modd. Mae'n cymryd rhan weithredol yng ngwaith y Byrddau Gwasanaethau Lleol yng Ngogledd Cymru, ac yn gweithio'n agos iawn gyda'r ddau Awdurdod Tân ac Achub arall yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol yn enghraifft wych o'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru yn dod at ei gilydd i yrru ymlaen â'r agenda gydweithio ar draws Cymru.

Ers i'r Awdurdod gael ei greu yn 1996 mae wedi meithrin dealltwriaeth dda o broffil y risg a'r anghenion busnes yn yr ardal sydd o dan ei ofal. Yn ystod yr amser hwnnw mae wedi gweld gostyngiad derbyniol yn nifer y tanau yn yr ardal a gostyngiad cyson yn nifer y bobl sy'n cael eu hanafu gan dân.

Yr her nawr yw cynnal y llwyddiant hwn ar adeg o heriau digynsail a galw posib ar wasanaethau. Mae'n anodd rhagweld yn sicr beth fydd y newidiadau a ddaw dros y degawd nesaf, ond mae modd gwneud asesiad rhesymol o'r pwysau tebygol, a symud i gyfeiriad lliniaru'r rheini cyn iddynt fod yn rhy anodd i'w trechu.

Rydym wedi ymrwymo i wneud Gogledd Cymru yn ardal fwy diogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi. Gobeithio y byddwch yn ystyried ein cynigion ac yn rhoi eich barn inni – boed chi'n cytuno â nhw ai peidio, neu boed chi'n gallu cynnig dewisiadau gwell.

DRAFFT

# CRYNODEB

Yn seiliedig ar asesiadau blaenorol o'r risgiau, ac ar natur fregus rhai carfannau o'r gymuned, mae'r Awdurdod yn cynnig y dylai ei Amcanion Gwella ar gyfer 2012-13 gael eu cario drosodd i 2013-14.

## AMCANION AR GYFER 2013-14

**Amcan Gwella 1**

Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel trwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi.

Bydd hyn yn cynnwys mabwysiadu Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau, a gosod meini prawf lleol ar gyfer ymateb i danau mewn anheddau.

**Amcan Gwella 2**

Ceisio ffyrdd i leihau'r gost gyffredinol o redeg y Gwasanaeth bob blwyddyn er mwyn gweithredu o fewn y gyllideb flynyddol.

## PARATOI AR GYFER 2014-15

Yn seiliedig ar asesiad cyfredol o'r risgiau sy'n debygol o wynebu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn y dyfodol, mae'r Awdurdod wedi dod i'r casgliad mai dyma'r rhai sy'n gofyn am lefel uchel o waith cynllunio i wella: cynnydd amcanestynedig yn y galw am wasanaethau; llwyth gwaith sy'n mynd yn fwyfwy anodd ei ragweld; a'r posibilrwydd o gael llai o arian ar gyfer darparu gwasanaethau.

Felly, mae'n cynnig gweithio tuag at ddatblygu'r Amcanion Gwella ar gyfer 2014-15 trwy gyflawni dwy ffrwd waith benodol:

**Ffrwd Waith 1**

Cwblhau Adolygiad o Wasanaethau Tân ac Achub Cynaliadwy

**Ffrwd Waith 2**

Gwneud cynllun ariannol tair blynedd ar gyfer 2014/15 - 2016/17.
Rydym yn gwahodd ymatebion i gwestiynau ein hymgynghoriad, ond byddem hefyd yn croesawu unrhyw sylwadau, yn enwedig ynglŷn â'r ddwy ffrwd waith a fydd yn cyfrannu at ddatblygu Amcanion Gwella ar gyfer 2014-15. Gwahoddir ymatebion erbyn Ionawr 7$^{fed}$ 2013.

DRAFFT

# CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

Bwriad y cwestiynau canlynol yw dangos y mathau o feysydd y mae gennym ddiddordeb mewn cael eich barn arnynt. Fodd bynnag, byddem yn falch iawn o gael eich sylwadau am unrhyw agwedd ar wasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru.

## CWESTIYNAU YNGLŶN Â GOSOD EIN AMCANION

<u>Amcanion Gwella ar gyfer 2013-14 (tudalennau 28 i 34).</u>

- Ydych chi'n cytuno ein bod ni wedi nodi'r ddwy flaenoriaeth bennaf ar gyfer y flwyddyn nesaf? Os nad ydym ni, beth arall fyddech chi'n ei awgrymu?

<u>Paratoi ar gyfer gosod yr Amcanion Gwella ar gyfer 2014-15 (tudalennau 35 i 36).</u>

- Beth, yn eich barn chi, yw'r pethau pwysig i'w hystyried nawr er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau tân ac achub rhagorol yn y dyfodol gyda chynnydd yn y galw ond llai o arian i redeg y gwasanaeth?
- Beth, yn eich barn chi, y dylem ni fod yn ei ystyried wrth ddatblygu'r strategaeth ariannol nesaf am gyfnod o dair blynedd nesaf?

## CWESTIYNAU YNGLŶN Â'N HYMATEB I DANAU MEWN ANHEDDAU

<u>Y Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau (tudalennau 30 i 32).</u>

- Ydych chi'n credu ein bod ni wedi mabwysiadu'r saith ymrwymiad cywir yn y Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau?
- A fyddech chi wedi cynnwys rhywbeth arall, neu wedi geirio rhywbeth yn wahanol?

<u>Meini Prawf Lleol ar gyfer Ymateb i Danau mewn Anheddau (tud. 31).</u>
Beth yw eich barn am y meini prawf yr ydym yn bwriadu eu mabwysiadu ar gyfer mesur ein cyflymder o ran ymateb i danau mewn anheddau?
A fyddech chi wedi cynnwys unrhyw beth arall?

## CWESTIWN YNGLŶN Â'N DULL CYFFREDINOL

Petaech chi'n gorfod dewis rhwng y ddau beth canlynol, pa un fyddai eich dewis, a pham?

> a) Cadw gorsaf dân ar agor oherwydd ei bod yn agos at eich cartref, ond gan dderbyn na fydd ar gael am sawl awr yr wythnos.
> Ynteu
> b) Cael gorsaf dân sy'n wastad yn barod i ymateb, ond gan dderbyn ei bod sawl milltir ymhellach o'ch cartref.

DRAFT

# Adran 1

## GWYBODAETH ALLWEDDOL AM WASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

[MAP YN DANGOS GORSAFOEDD TÂN]

DRAFT

| | 2010-11 | 2011-12 |
|---|---|---|
| Cyllideb refeniw | £32.093 miliwn | £31.933 miliwn |
| Grantiau a dderbyniwyd | £1.776 miliwn | £2.692 miliwn |
| Gwariant cyfalaf | £6.725 miliwn | £4.491 miliwn |
| Gorsafoedd tân | 44 | 44 |
| Injanau tân | 54 | 54 |
| Pobl a gyflogir ar 31 Mawrth | 1,058 | 983 |
| Tanau yr aethpwyd atynt | 3,297 | 3,165 |
| Argyfyngau yr aethpwyd atynt nad oeddent yn danau | 1,355 | 990 |
| Galwadau diangen yr aethpwyd atynt | 3,743 | 3,566 |
| Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gynhaliwyd | 36,905 | 28,472 |


Ceir rhagor o wybodaeth yn Adran 4 ac ar ein gwefan, neu gallwch gysylltu â ni yn y cyfeiriad sydd ar y dudalen gynnwys.

# PROFFIL O OGLEDD CYMRU

Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am yr ardal y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ei hamddiffyn, ac mae'n rhoi proffil o'r amcanestyniadau o'r prif risgiau demograffig a chymdeithasol y mae angen i'r Awdurdod eu hystyried.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn un o dri awdurdod tân ac achub yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd yn 1996, mae'n darparu gwasanaethau yn ardaloedd chwech o awdurdodau unedol, sef Conwy, Gwynedd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam ac Ynys Môn, ac mae'n gwario cyllideb refeniw flynyddol sydd oddeutu £32 miliwn.

**POBLOGAETH** Mae'r Awdurdod yn gwasanaethu poblogaeth breswyl sydd oddeutu 680,000[1], a hwnnw wedi grynhoi'n bennaf yn ardaloedd mwy diwydiannol a threfol y Gogledd-Ddwyrain ac ar hyd arfordir y Gogledd.



Ffynhonnell: Infobase Cymru


Mae'r map yn dangos lle mae'r ardaloedd mwy tenau eu poblogaeth a mwy dwys eu poblogaeth yn y Gogledd[2]. Mae'r lliwiau tywyllach yn dangos mwy o ddwysedd poblogaeth.

[1] 688,400 yn ôl amcangyfrif canol blwyddyn 2011 y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a 687,600 yn ôl cyfrifiad 2011.

[2] Cymerwyd y ffigurau ar adeg yr Amcangyfrifon Poblogaeth Ardaloedd Bach 2010, a gyhoeddwyd yn Hydref 2011.

Ar lefel sirol, mae'r dwysedd poblogaeth yn amrywio rhwng 47 o bobl ymhob milltir sgwâr yng Ngwynedd – un o'r siroedd mwyaf tenau ei phoblogaeth yng Nghymru a Lloegr – a 342 o bobl ymhob milltir sgwâr yn Sir y Fflint.

**Poblogaeth a dwysedd poblogaeth**




Ffynhonnell:StatsWales Tabl003647 a Bwletin LlC SB 88/2012

<u>INCWM</u> Yn ôl ffigurau'r Adran Gwaith a Phensiynau, roedd canolrif incwm blynyddol pobl sy'n byw yn siroedd Gogledd Cymru yn 2011 yn amrywio rhwng £23,267 a £28,719, o'i gymharu â chanolrif o £25,157[3] yng Nghymru.

<u>CYMWYSTERAU</u> Roedd ffigurau'r Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos bod canran y bobl sy'n byw ymhob sir yng Ngogledd Cymru heb unrhyw gymwysterau yn amrywio rhwng 9.6% a 12.7%, o'i gymharu â 12% yng Nghymru gyfan[4].

<u>ETHNIGRWYDD</u>: Yn ôl amcangyfrifon poblogaeth 2009[5], roedd mwyafrif helaeth poblogaeth Gogledd Cymru yn wyn (97.23%, o'i gymharu â 95.88% yng Nghymru gyfan).

<u>HUNANIAETH GENEDLAETHOL</u>: Yn ôl amcangyfrifon poblogaeth 2009[6], roedd y ganran o boblogaeth siroedd Gogledd Cymru a oedd yn ystyried mai Cymry oeddent yn amrywio rhwng 44% a 64% o'i gymharu â 65% sef cyfartaledd Cymru.


---

[3] Ffynhonnell: Infobase Cymru.
[4] Ffynhonnell: Infobase Cymru.
[5] StatsWales - Tabl 014499
[6] StatsWales - Tabl 005501

Y GYMRAEG:  Roedd yr ymatebion i'r Arolwg Integredig o Gartrefi a gynhaliwyd yn 2010[7] yn awgrymu bod canrannau siaradwyr Cymraeg yn siroedd y Gogledd yn amrywio o 17% i dros 70%, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o fymryn o dan 25%.

OEDRAN:  Mae gan boblogaeth y Gogledd, yn ôl Cyfrifiad 2011, ganran fymryn yn is o bobl yn eu hugeiniau a'u tridegau, a chanran fymryn yn fwy o bobl yn eu chwedegau, eu saithdegau a'u hwythdegau na Chymru gyfan. Ym mis Mawrth 2011, roedd dros 97,000 o bobl dros 70 mlwydd oed yn byw yn y Gogledd, gan gynnwys 159 o bobl wedi cyrraedd can mlwydd oed.

**Canrannau'r holl boblogaeth ymhob grwp oedran**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011.  StatsWales – Tabl 040221

ANABLEDD: Yn ôl arolwg o boblogaeth 2009[8], amcangyfrifir bod rhyw fath o anabledd gan tua 16% - 22% o boblogaeth Gogledd Cymru, o'i gymharu â mymryn dan 22% yng Nghymru gyfan.

CYFEIRIADEDD RHYWIOL:  Roedd ymatebion i'r Arolwg Integredig o Gartrefi a gynhaliwyd yn 2011[9] yn awgrymu bod rhwng 92% a 96% o boblogaeth Gogledd Cymru yn heterorywiol, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 94%.

[7] StatsWales - Tabl 005502
[8] StatsWales - Tabl 005510
[9] StatsWales - Tabl 025006

DRAFT

ARWYNEBEDD**:** Mae i Ogledd Cymru arwynebedd sydd tua 6,172 cilometr sgwâr, a rhyw 400 cilometr (250 milltir) o arfordir.

TRAFNIDIAETH: Y prif gysylltiadau trafnidiaeth ar y ffyrdd yw'r A55, yr A5, yr A483, yr A487 a'r A470. Mae cyfanswm o 9,735 km o ffyrdd A, B, C ac is-ffyrdd yn yr ardal. Swmp y traffig yn 2010 oedd 6.49 biliwn o gilometrau cerbydau.

DRAFFT

# Adran 2

## PROFFILIO RISGIAU'R DYFODOL

Mae'r Awdurdod wedi adolygu pa risgiau sy'n debygol o effeithio ar ei allu i ddarparu gwasanaethau tân ac achub dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r rhain wedi cael eu grwpio'n bedwar categori bras: sef demograffeg, ffordd o fyw, ariannol a'r ardal ei hun.

DRAFFT

## AMCANESTYNIAD O RISG DDEMOGRAFFIG

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y risgiau sy'n deillio o broffil demograffig yr ardal.

- **MAE POBLOGAETH YR ARDAL YN CYNYDDU**

Roedd yr amcangyfrif canol blwyddyn ar gyfer 2010[10] yn rhoi ffigwr poblogaeth o 678,461 o bobl yng Ngogledd Cymru. Amcangyfrifwyd bod hyn yn mynd i godi 7.8% i 731,454 erbyn y flwyddyn 2033. Petai'r un gyfradd amcangyfrifiedig o gynnydd yn cael ei dilyn ar gyfer yr amcangyfrif mwy diweddar yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011 sef poblogaeth breswyl arferol[11] Gogledd Cymru (687,600), byddai hyn yn rhoi cyfanswm o hyd at 741,233 o bobl yn byw yng Ngogledd Cymru erbyn y flwyddyn 2033.

**Pam fod hynny'n berthnasol?**
Oherwydd po fwyaf o bobl sydd yn yr ardal, po fwyaf yw'r her o atal tanau a chynnal ansawdd ein hymateb i argyfyngau.

Mae'n bosib na fydd y cynnydd yn y galw am wasanaethau tân ac achub yn dod law yn llaw â chynnydd yn y gyllideb.

[10] Amcangyfrifon Canol Blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol www.statswales.wales.gov.uk Tabl 016889 Amcangyfrifon Canol Blwyddyn (2001 ymlaen)

[11] Cyfrifiad 2011 - Tabl CP04: Y boblogaeth breswyl arferol fesul grwpiau pum mlynedd, awdurdodau unedol yng Nghymru.

- **MAE'N DEBYGOL Y BYDD MWY O GARTREFI UN PERSON**

Mae tua 301,141 o gartrefi yng Ngogledd Cymru[12]. Mae'r nifer wedi bod yn codi'n gyson, ynghyd â'r gyfran o'r cartrefi hynny sydd ag un person yn byw ynddynt[13].

| Blwyddyn | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pob cartref | 289,851 | 292,103 | 294,930 | 297,539 | 299,558 | 301,141 |
| Cartrefi 1 person | 90,974 | 92,575 | 94,335 | 96,086 | 97,633 | 99,092 |
| Cartrefi 1 person fel % | 31% | 32% | 32% | 32% | 33% | 33% |

Hefyd, cyfrifwyd bod nifer y cartrefi yng Nghymru yn codi ar gyfradd gynt na'r boblogaeth, ac mae yna dueddiad tymor hir o gael cartrefi llai, gyda chynnydd mawr yn nifer y cartrefi sydd ag un person yn byw ynddynt.

**Pam fod hynny'n berthnasol?**

Oherwydd bod ein dadansoddiad o farwolaethau tân wedi dangos y ffactor risg o fod ar eich pen eich hunain ar adeg y tân. Mae'r ffaith fod mwy o bobl yn byw ar eu pen eu hunain yn cynyddu'r risg gyffredinol.

[12] Fel y cyfrifwyd yn ôl amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol. O'u cyfrifo yn ôl Cyfrifiad 2011, amcangyfrifir bod nifer yr aelwydydd yng Ngogledd Cymru gydag o leiaf un person preswyl arferol yn ffigwr fymryn yn is, sef 295,600.


[13] StatsWales - Tabl 028727 Amcangyfrifon nifer yr aelwydydd yn ôl Awdurdodau Lleol, 1991-2010.



DRAFT

- **MAE NIFER Y CARTREFI YN CODI AR GYFRADD GYNT NA'R BOBLOGAETH**

**Poblogaeth Amcanestynedig wedi ei Fynegeio a Thwf Nifer yr Aelwydydd yng Nghymru**




| | |
|---|---|
| | Twf Poblogaeth wedi ei Fynegeio (2008=100) |
| | Twf Nifer Aelwydydd wedi ei Fynegeio (2008=100) |

**Pam fod hynny'n berthnasol?**
Oherwydd o'u hystyried gyda'i gilydd, mae poblogaeth sy'n tyfu a mwy o aelwydydd yn yr ardal yn golygu y bydd angen i'r Gwasanaeth weithio hyd yn oed yn fwy effeithiol er mwyn parhau i sicrhau canlyniadau da i bobl.

DRAFT

- **MAE CYFRAN SYLWEDDOL O'R STOC DAI YN Y SECTOR TAI CYMDEITHASOL**

Yn ôl ffigurau a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru, amcangyfrifir bod y stoc tai cymdeithasol yng Ngogledd Cymru tua 51,383 uned[14]. O'i gyfrifo fel cyfran o'r holl gartrefi ymhob ardal awdurdod lleol, roedd gan Wynedd a Wrecsam ill dwy gyfran uwch na chyfartaledd Cymru. Roedd gan Gonwy yr ail isaf yng Nghymru (tua 13%).

**Pam fod hynny'n berthnasol?**

Oherwydd bod ein dadansoddiad yn dangos bod y risg o farw mewn tân mewn cartref yn uwch ymhlith aelwydydd sy'n byw mewn llety ar rent.

I'r gwrthwyneb, mae ein partneriaethau gyda'r sector tai cymdeithasol yn ei gwneud yn haws inni ddarparu gwasanaethau atal tanau i denantiaid yn y cartrefi hynny nag i rai sy'n denantiaid i landlordiaid preifat unigol.

DRAFT

[14] Stoc a Rhent Tai Cymdeithasol ar 31 Mawrth 2012. Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru 26 Gorffennaf 2012. http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/housing2012/120726/?lang=cy

- **MAE POBL YN BYW’N HIRACH**

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd dros 20% o boblogaeth Gogledd Cymru (138,600 o bobl) yn 65 mlwydd oed a throsodd. Ar y pryd, roedd 97,400 o bobl yn 70 mlwydd oed a throsodd.


Mae nifer y bobl hŷn sy’n byw yng Nghymru i’w gweld fel petai’n mynd i godi’n sylweddol wrth i’r disgwyliad oes barhau i godi.

DRAFFT

- ## MAE NIFER Y BOBL HŶN YN EIN CYMUNEDAU I'W GWELD FEL PETAI'N MYND I GODI'N SYDYN

Gan gymryd 2010 fel man cychwyn, a rhagamcanu ffigurau poblogaeth ymlaen o un man cychwyn, mae'r graff isod yn dangos sut y mae nifer y bobl dros 65 mlwydd oed yng Nghymru yn debygol o gynyddu ar gyfradd gynt na nifer y bobl ifanc.

**Amcanestyniad wedi ei fynegeio sy'n dangos y cynnydd yn nifer y bobl hŷn yng Nghymru.**




Ffynhonnell: SwyddfaYstadegau Gwladol (amcanestyniadau cenedlaethol yn seiliedig ar 2008)

| | |
|---|---|
| | Pob oedran (2010=100) |
| | O dan 16 mlwydd oed (2010=100) |
| | 16-64 mlwydd oed (2010=100) |
| | 65+ mlwydd oed (2010=100) |

**Pam fod hynny'n berthnasol?**

Wrth i bobl heneiddio maent yn mynd yn fwy agored i niwed oherwydd mae'n bosib fod rhywbeth yn effeithio ar eu gallu i symud, ac efallai nad yw eu synhwyrau'n ymateb mor sydyn.

- **MAE LEFEL DIBYNIAETH YN UCHEL, OND MAE POBL YN DISGWYL CADW EU HANNIBYNIAETH CYHYD AG Y BO MODD**

Mae'r gymhareb yng Nghymru rhwng dibyniaeth pobl hŷn a'r boblogaeth o oedran gweithio eisoes yn uchel o'i chymharu â gwledydd eraill y DU ac yn rhyngwladol. Rhagamcanir y bydd nifer y plant yng Nghymru yn codi yn y tymor canolig, cyn gostwng fymryn yn y tymor hir.

Mynegwyd hyn yn gryno yn ddiweddar yn adroddiad blynyddol 2011 Prif Swyddog Meddygol Cymru:

> *"Mae poblogaeth Cymru yn heneiddio. Mae amcanestyniadau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn awgrymu y bydd nifer y bobl 85 oed a throsodd yn mwy na dyblu o 77,000 yn 2010 i 186,000 yn 2035.*
> *Rydym hefyd yn gwybod o'r boblogaeth oedrannus gynyddol hon fod nifer yr achosion o ddementia yn debygol o gynyddu am na fydd pobl yn marw yn gynamserol o glefydau cylchrediad y gwaed na chanser.*
> *Caiff y newidiadau demograffig hyn effaith ar y GIG o ran y ffordd y caiff pobl eu trin a'r angen i ofalu am bobl ag anableddau yn y gymuned. Polisi'r Llywodraeth yw ein bod am helpu pobl i fyw bywydau mor annibynnol â phosibl a cheisio sicrhau y gall pobl fyw eu bywydau yn eu cartrefi eu hunain."*

**Pam fod hynny'n berthnasol?**

Oherwydd y bydd angen i bobl gael cymorth i fyw'n annibynnol wrth iddynt heneiddio, a bydd angen i'r Awdurdod ddod o hyd yn barhaus i ffyrdd o gyfrannu at eu diogelwch.

**Bydd mwy o bobl i'w hamddiffyn – ac yn benodol bydd mwy o bobl yn y categorïau risg mwyaf.**

DRAFT

# AMCANESTYNIAD O RISG FFORDD O FYW

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y risgiau sy'n deillio o'r ffordd y mae pobl yn byw.

- **MAE'R GYFRADD YFED ALCOHOL YN UCHEL**

Mae yfed mwy na'r canllawiau dyddiol yn golygu yfed mwy na 4 uned (dynion) neu 3 uned (merched); mae goryfed mewn pyliau yn golygu yfed mwy na dwywaith y canllawiau dyddiol.

Dim ond mymryn dros hanner poblogaeth Cymru (56%) sy'n yfed o fewn y terfynau diogel a argymhellir. Dywedodd Prif Swyddog Meddygol Cymru[15] bod lefelau gormodol o yfed alcohol yn eang yng Nghymru; roedd 44% o oedolion yn dweud eu bod wedi yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir ar un diwrnod o leiaf yn ystod yr wythnos flaenorol, gan gynnwys 27% wedi dweud eu bod wedi goryfed mewn pyliau.

**Pam fod hynny'n berthnasol?**

Oherwydd bod pobl dan ddylanwad alcohol yn fwy agored i beryglon tân gan nad ydynt yn sylweddoli'r risg neu'n ei anwybyddu, ac yn llai tebygol o allu eu hachub eu hunain.

[15] Arolwg Iechyd Cymru: Llywodraeth Cymru (adroddwyd yn Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Meddygol Cymru 2011 "Ein Dyfodol Iach").

## MAE CYFRADDAU YSMYGU YN AROS YN GYMHAROL GYSON

Mae bron i chwarter (24%) oedolion Cymru wedi dweud[16] eu bod yn ysmygu bob dydd neu'n achlysurol. Mae tua 11% o fechgyn 15 oed ac 16% o ferched 15 oed wedi dweud eu bod yn ysmygu o leiaf unwaith yr wythnos.

**Pam fod hynny'n berthnasol?**
Oherwydd bod tanau a gychwynnir gan sigaréts wedi eu taflu'n esgeulus ymhlith y rhai mwyaf marwol. Er bod sigaréts sy'n diffodd pan nad ydynt yn cael eu hysmygu yn bodoli erbyn hyn, nid yw'r risg wedi diflannu'n llwyr, ac mae'r ffaith fod ysmygu'n beth cyffredin, a bod nifer yr ysmygwyr ifanc yng Nghymru, yn awgrymu y dylai hyn aros ar gofrestr risg yr Awdurdod.

- **MAE CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU YN BETH CYFFREDIN**

Yng Nghymru bob blwyddyn mae tua 40,000 o achosion[17] o bobl yn mynd at wasanaethau sy'n trin y camddefnydd o sylweddau, ond mae'n debyg mai dim ond cyfran yw hyn o'r holl rai sy'n camddefnyddio sylweddau. Y tri ar frig y rhestr yw'r camddefnydd o alcohol, heroin a chanabis.

**Pam fod hynny'n berthnasol?**

Oherwydd bod pobl mewn mwy o berygl os yw eu bywydau'n anhrefnus neu os yw cyffuriau neu alcohol yn amharu ar eu hymwybyddiaeth o'r hyn sy'n digwydd o'u cwmpas.


**Nid lle mae pobl yn byw sydd o reidrwydd yn eu rhoi mewn mwy o berygl, ond sut y maen nhw'n byw.**

[16] Canran yr oedolion sy'n ysmygu, wedi ei safoni yn ôl oedrannau. Adroddiad Blynyddol 2011 Prif Swyddog Meddygol Cymru, "Ein Dyfodol Iach").
[17] StatsWales – Tabl 010797

# AMCANESTYNIAD O RISG ARIANNOL

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y risg o fethu fforddio'r gost o redeg y gwasanaeth neu o gadw ei asedau megis ei adeiladau a'i gerbydau.

Mae'r dirywiad economaidd cenedlaethol, ynghyd â chanlyniadau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn Nhachwedd 2010, wedi rhoi arwydd o lefel y toriadau i wasanaethau cyhoeddus sydd i'w ddisgwyl yn y blynyddoedd nesaf. Yn Rhagfyr y flwyddyn honno, penderfynodd yr Awdurdod rewi'r gyllideb flynyddol am dair blynedd, sydd mewn termau real (gan ystyried y cynnydd a ragwelir i gostau) yn golygu torri'r gyllideb flynyddol ryw £800,000 bob blwyddyn am dair blynedd.




Felly, bydd unrhyw doriadau i'r gyllideb yn y dyfodol yn cael eu hychwanegu at y £2.4 miliwn a arbedwyd bob blwyddyn eisoes.


Bydd y rhagolygon ariannol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru yn heriol.

Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, "Darlun o wasanaethau cyhoeddus 2011", yn cydnabod bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu newid a dewisiadau anodd o ganlyniad i doriadau i gyllidebau a phwysau eraill dros y pedair blynedd nesaf.

Roedd yr adroddiad yn cydnabod 'bod gwasanaethau'r heddlu a'r gwasanaethau tân yng Nghymru, ar y cyfan, yn ymbaratoi'n dda ar gyfer yr heriau sy'n eu hwynebu, gyda chynlluniau clir a hanes o reolaeth ariannol a chyflwyno gweddnewidiadau. Fodd bynnag, prif neges yr Archwilydd Cyffredinol oedd y bydd gwasanaethau cyhoeddus, er eu bod yn barod ar gyfer toriadau i gyllid, yn cael eu


profi o ddifrif wrth iddynt symud i gyfeiriad gwneud gostyngiadau gwirioneddol i gostau'.
Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn dweud yn glir beth gall y sector cyhoeddus yng Nghymru ei ddisgwyl dros y ddwy flynedd nesaf, gyda'r llai o gyllid gan Lywodraeth Cymru yn cael ei adlewyrchu fel toriadau mewn termau real.

**Cyllid Llywodraeth Cymru mewn termau real**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffigurau Llywodraeth Cymru yn "Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011".

**'Toriad' termau real gan ddefnyddio 2010-11 fel gwaelodlin (£ miliwn)**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffigurau Llywodraeth Cymru yn "Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011".

Gan ymateb i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, roedd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd yn cydnabod bod angen i'r sector cyhoeddus yng Nghymru 'wneud arbedion pellach a lliniaru'r effaith y bydd y gostyngiad yn y gyllideb yn ei chael ar ddefnyddwyr gwasanaethau'.

Mae **Grantiau gan Lywodraeth Cymru** hefyd wedi galluogi llawer o'r gwaith ataliol y mae'r Awdurdod wedi bod yn ei wneud yn y blynyddoedd diwethaf. Petai'r rhain yn dod i ben, byddai angen gwneud penderfyniadau ynglŷn â swmp a chyllid y gwaith ataliol yn y dyfodol.

# RISGIAU YN SEILIEDIG AR YR ARDAL

Mae’r adran hon yn canolbwyntio ar y risgiau hynny sydd yn yr ardal y mae’n anodd paratoi ar eu cyfer ond sy’n gallu arwain at bresenoldeb mewn digwyddiadau hirfaith. Mae dwy effaith i hyn, sef defnyddio adnoddau fel nad ydynt ar gael ar gyfer rhywle arall, a hynny am amser maith weithiau, a chynnydd mewn costau, yn enwedig pan fo’r ymateb yn cynnwys staff y System Dyletswydd ar gael yn ôl y Galw sydd â’u cyflog yn gysylltiedig â’r amser a dreulir mewn digwyddiadau.

- **Y TYWYDD**

Yn ôl gwyddonwyr, does dim modd gwrthbrofi newid hinsawdd, a hyd yn oed gyda’r ymdrechion lliniaru mwyaf uchelgeisiol, rydym wedi’n clymu i ragor o newid hinsawdd dros y degawdau nesaf[18].

Yn ôl datganiad polisi Llywodraeth Cymru yn 2011 ar newid hinsawdd:

> *Mae’r wyddoniaeth yn awgrymu bod Cymru’n gallu disgwyl hafau poethach a sychach, gaeafau gwlypach, a glawogydd dwysach. Mae’n bosib y gallai effeithiau newidiadau fel y rhain fod yn gryf; efallai y byddwn yn profi mwy o lifogydd, mwy o dywydd poeth, mwy o sychder a phrinder dŵr, colli cynefinoedd pwysig ar gyfer bywyd gwyllt, mwy o danau gwyllt, a mwy o darfu ar ein rhwydweithiau trafnidiaeth, ynni a TGCh.”*[19]

Mae Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU 2012 wedi nodi bod Cymru yn agored i effeithiau’r tywydd a’r hinsawdd yn y modd unigryw canlynol:

- *mae 20% o’r boblogaeth, ac un ymhob chwe eiddo, mewn perygl o lifogydd arfordirol, afonol neu fath arall o lifogydd. Mae llifogydd yn fwy o fygythiad yng Nghymru nag yng ngweddill y DU, gyda llifogydd sydyn a thirlithriadau yn bryder arbennig oherwydd y llethrau ar lawer o dirwedd Cymru*

DRAFT

---

[18] Rhagair gan yr Athro Robert Watson, Prif Gynghorydd Gwyddonol, Defra yn *UK Climate Projections: Briefing Report* a gyhoeddwyd Rhagfyr 2010. http://ukclimateprojections.defra.gov.uk

[19] Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru: Paratoi ar gyfer hinsawdd sy’n newid. Gweithredu’r darpariaethau ymaddasu yn Neddf Newid Hinsawdd 2008. Cyhoeddwyd Hydref 2011 Hawlfraint y Goron.

- *Mae adnoddau dŵr daear yn brin iawn, ac yn arwain ar orfod dibynnu ar ddŵr wyneb i ddiwallu anghenion cartrefi a busnesau. Er bod glawiant cymharol uchel, mae Cymru'n gweld pwysau sylweddol ar ei chyflenwadau dŵr.*
- *Yn ystod yr unfed ganrif ar hugain, fel y nodwyd yn Rhagolygon Hinsawdd y DU a gyhoeddwyd yn 2009 (UKCP09), gallai Cymru brofi cynnydd yn y tymheredd cyfartalog yn ystod y flwyddyn, cynnydd yn y glawiant cyfartalog yn y gaeaf, gostyngiad yn y glawiant cyfartalog yn yr haf a lefelau'r môr yn codi*." [20]

**Pam fod hynny'n berthnasol?**
Oherwydd bod y gwasanaeth tân ac achub yn ymateb i lawer o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r tywydd. O ran natur, mae'n anodd cynllunio ar gyfer y mathau yma o ddigwyddiadau gan na wyddom pryd a ble y byddant yn digwydd, nag am ba hyd y byddant yn para. Dyna pam fod gwasanaethau'n gorfod cael eu trefnu er mwyn gallu ymateb i amodau prysur, gan gynnwys tanau cefn gwlad, llifogydd dros ardal helaeth, gwyntoedd uchel a stormydd.

DRAFT

[20] Asesiad risg newid hinsawdd y DU 2012 http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/120126climaterisksummaryen.pdf

- **Y FFYRDD A THRAFFIG AR Y FFYRDD**

Mae tua thri chwarter cartrefi Cymru yn gallu defnyddio o leiaf un car neu fan, gyda thua 80% o aelwydydd yn dibynnu ar gerbydau preifat i deithio i'r gwaith ac i gyrraedd gwasanaethau a chyfleusterau sylfaenol.


Roedd yr wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru yn 2011[21] yn dweud bod rhwng 0.61 ac 1.64 biliwn o gilometrau cerbydau modur wedi cael eu teithio yn ardaloedd awdurdodau lleol Gogledd Cymru yn 2010.

Y prif gysylltiadau trafnidiaeth ar y ffordd yw'r A55 (sydd hefyd yn cyfrif fel rhan o ffordd Ewropeaidd 22 yng Ngogledd Cymru), yr A5, yr A487 a'r A470. Yr A55 (sydd â phedwar twnel) sy'n cael y nifer fwyaf o draffig, ac mae hynny'n sylweddol uwch yn ystod misoedd yr haf.

- **ANAFUSION OHERWYDD TRAFFIG AR Y FFYRDD**

Mae ystadegau Llywodraeth Cymru am ddiogelwch ar y ffyrdd[22] yn dangos gostyngiad cyffredinol yn nifer yr anafusion ar y ffyrdd yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf, ond ni ellir dweud bod tueddiad pendant am i lawr yn nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd yng Ngogledd Cymru.

**Pobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol ar ffyrdd Gogledd Cymru**




Ffynhonnell: Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru SB 75/2012, Tabl 18.

DRAFT

[21] Monitro'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, Diweddariad 2011. Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru 27 Mawrth 2012. http://wales.gov.uk/docs/statistics/2012/120327sb282012en.pdf
[22] Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd 2011. http://www.roadsafetywales.co.uk/statistics/info/RoadSafetyStatisticalBulletinAugust2012.pdf

Hefyd, mae cyfradd yr anafusion a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol yn uwch ar y cyfan mewn ardaloedd gwledig, ac mae cyfradd gyffredinol y gostyngiad mewn anafusion yn mynd i lawr yn arafach ymysg y grŵp 60 mlwydd oed a throsodd.

**Pam fod hynny'n berthnasol?**
Oherwydd bod y gwasanaeth tân ac achub yn ymateb i lawer o wrthdrawiadau ar y ffyrdd pan fo raid tynnu pobl allan o gerbydau. Nid oes dyletswydd gyfreithiol arno i atal gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, ond mae'n chwarae rhan yn ceisio gwelliannau i ddiogelwch ar y ffyrdd. Fel gyda digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r tywydd, mae'n anodd rhagweld pryd a ble y bydd gwrthdrawiadau'n digwydd, ond mae'r natur wledig a'r cynnydd a ddisgwylir yn nifer y bobl hŷn yn awgrymu y gallai nifer y gwrthdrawiadau difrifol ar y ffyrdd gynyddu'n anghymesur yng Ngogledd Cymru yn y dyfodol.

DRAFT

**Gallai cyfradd y galw am rai o'r Gwasanaethau y mae'n llai posib eu rhagweld gynyddu neu fynd yn anos eu rhagweld.**

# Adran 3

## GWNEUD GWELLIANNAU A LLEIHAU RISG

Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru wedi eu categoreiddio'n 'Awdurdodau Gwella Cymreig', ac maent yn dod dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009 o ran dilyn proses flynyddol o osod a chyflawni amcanion gwella lleol.

Wedi sganio'r gorwel ac asesu risg yng Ngogledd Cymru, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi canfod rhai materion strategol y mae'n bwriadu mynd i'r afael â nhw trwy'r broses hon o gynllunio gwelliannau.

Yn y cyfamser wrth gwrs bydd yn parhau i wella'r hyn y mae'n ei wneud, gan roi pwyslais arbennig ar gydweithio, a hynny yn ei ardal ei hun a chyda'r awdurdodau tân ac achub eraill yng Nghymru. Rhywbeth newydd a phwysig yn ddiweddar fu sefydlu **Pwyllgor Materion Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru (PMC)** i wella rhagor ar y cydweithio rhwng y tri. Ceir manylion am ei waith ar http://www.nicwalesfire.org.uk/nic_cym/index.htm.

Mae'r tudalennau canlynol yn cyflwyno'r Amcanion Gwella y mae'r Awdurdod wedi eu cynllunio ar gyfer 2013-14, ac yn amlinellu at ble y mae'n bwriadu anelu ei Amcanion Gwella yn 2014-15.

*[Cynnwys diagram yn dangos y proffil risg 3-ffordd o:*

- *Cynnydd yn y galw lleol am wasanaethau*
- *Cyfradd y galw am wasanaethau yn mynd yn fwyfwy anodd ei ragweld*
- *Llai o arian ar gael ar gyfer darparu gwasanaethau]*

# LLEIHAU RISG A GWELLA YN 2013-14

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu dau brif amcan gwella yn 2012-13, ac mae'n bwriadu parhau â nhw yn 2013-14.

Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd ati'n barhaus i roi gwelliannau ar waith yn ei gynlluniau busnes arferol, ond y ddau amcan canlynol yw ei flaenoriaethau pennaf ar gyfer gwella yn ystod y flwyddyn.

**Amcan Gwella 1 ar gyfer 2013-14:**
Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel trwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi.

- **Pam y dewiswyd hyn yn amcan?**

Oherwydd bod cadw pobl yn ddiogel yn ganolog i'r hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud. Diogelwch pobl yng Ngogledd Cymru yw'r prif beth sydd dan sylw ganddo, ond mae hefyd yn gwneud llawer mwy o synnwyr i atal digwyddiadau rhag digwydd yn hytrach na dim ond ymateb iddynt bob tro y maent yn digwydd.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gynnal ei darged blynyddol o gyflwyno 30,000 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref i drigolion Gogledd Cymru, ond mae demograffeg Gogledd Cymru a'r ymddygiadau sydd wedi eu nodi yn golygu y bydd angen cynyddu'r gwaith ataliol er mwyn aros gyfuwch, a bydd angen i'r gwasanaethau ymateb barhau i fod ar gael i ddelio â methiannau a'r damweiniau annisgwyl neu'r rhai nad oes wir fodd eu hosgoi. Ers nifer o flynyddoedd, mae'r Awdurdod wedi bod yn atgoffa pobl mai gwell atal nag ymladd tanau, ac mae'n dal i gredu hynny.

DRAFT

Yn ogystal, mae gan yr Awdurdod fandad gwirioneddol i weithio yn y cyfeiriad hwn – mae'r Rhaglen Lywodraethu sydd gan Lywodraeth Cymru yn nodi ei hymrwymiadau ei hun ar gyfer gwella diogelwch cymunedol, ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu yn ei Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub o 2012 Ymlaen.

- **Ym mha ffordd y bydd yn gwella'r canlyniadau i bobl?**

Mae tanau yn y cartref yn gallu bod yn ddinistriol. Mae'r gofid o golli cartref a thrysorau yn ddigon drwg, ond mae gweld rhywun annwyl wedi ei anafu, ei anffurfio am byth neu hyd yn oed ei ladd yn gallu bod yn

llethol. Gorau oll po leiaf o danau sy'n digwydd. Ac os bydd tân yn digwydd, gorau oll po leiaf o bobl sy'n cael eu hanafu neu eu lladd. Mae mor syml â hynny.

- **Beth yw 'llwyddiant' i'r Awdurdod yn yr amcan hwn?**

Nid oes modd sicrhau na fydd tanau'n digwydd neu na fydd pobl yn cael eu hanafu, ond mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau rhagorol ym maes atal tanau ac ymateb iddynt, a gwireddu'r ymrwymiadau a wnaed ganddo yn y Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro ei berfformiad mewn perthynas â'r tanau hynny a ddigwyddodd mewn anheddau, a chymharu hynny gyda'i berfformiad ei hun yn y gorffennol a chymaryddion allanol perthnasol. Bydd hefyd yn sicrhau bod digon o brosesau rheoli cadarn yn eu lle er mwyn canfod unrhyw wendidau mewn prosesau mewnol, a dysgu o ganlyniad i unrhyw fethiant canfyddadwy er mwyn lleihau'r tebygolrwydd eu bod yn digwydd eto.

- **Sut y bydd yr Awdurdod yn mesur ac yn monitro cynnydd?**

<u>Allbynnau</u>

- Nifer yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gynhelir.
- Canran yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gynhelir o ganlyniad i atgyfeiriad gan asiantaeth sy'n bartner inni.

<u>Canlyniadau</u>

- Nifer y marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi.
- Nifer yr anafiadau (yn enwedig yn y categorïau mwy difrifol) a gafwyd mewn tanau damweiniol mewn cartrefi.
- Canran y bobl mewn tanau damweiniol mewn cartrefi a lwyddodd i ddianc yn ddianaf heb orfod cael cymorth criw tân i wneud hynny.

DRAFT

## Ymateb i Danau mewn Anheddau

Ymrwymiadau'r Awdurdod o dan **Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru gyfan** yw:

1. Cymryd yr awenau wrth ostwng nifer y tanau mewn anheddau sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.
2. Ymateb yn gyflym ac yn effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad frys 999 i fynd at dân mewn annedd.
3. Cyrraedd tanau mewn anheddau yn gyflym gyda'r offer cywir i ymdrin â nhw.
4. Ymdrin â thanau mewn anheddau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.
5. Cyfrannu at gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.
6. Ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau, a dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.
7. Ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru, erbyn Ebrill 2013, wedi gosod meini prawf ar gyfer ymateb i danau mewn anheddau, a'r rheini'n addas i'w hardal. Dylai'r nod cyffredinol fod i leihau'r achosion o danau mewn anheddau a'r anafusion sy'n gysylltiedig â nhw, tra'n gwella diogelwch diffoddwyr tân ar yr un pryd.

Felly, mae'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru wedi bod yn gweithio i ddatblygu cyfres gyffredin o ddangosyddion perfformiad a mesurau y gallent eu defnyddio ill tri i fonitro ac i roi cyfrif cyhoeddus am eu perfformiad eu hunain, a gadael y targedau unigol yn fater i bob Awdurdod Tân ac Achub eu diffinio.

## Meini Prawf Ymateb i Danau mewn Anheddau

Yn benodol mewn perthynas â'r ymrwymiad i gyrraedd tanau mewn anheddau yn gyflym gyda'r offer cywir i ddelio â nhw, mae'r Awdurdod yn cynnig gosod y targedau canlynol:

| Elfen | Yn effeithio arni | Y Targed a gynigir |
|---|---|---|
| Yr amser a gymerir gan y Gwasanaeth Tân ac Achub i ateb galwad 999/112 a drosglwyddwyd iddo gan yr asiant trin galwadau. | Lefelau staffio a pherfformiad yr Ystafell Reoli; technoleg effeithiol; a nifer y galwadau 999 a dderbynnir ar yr un pryd. | Ateb 85% o'r holl alwadau 999 o fewn 7 eiliad; 95% o fewn 10 eiliad; a 98% o fewn 20 eiliad. |
| Yr amser a gymerir i gychwyn galw criw tân (h.y. cychwyn ymateb)[23]. | Y Gweithredwr yn yr Ystafell Reoli yn gallu cael digon o wybodaeth gan y galwr, neu ei leoliad er mwyn gallu canfod y peiriant tân mwyaf priodol i'w anfon. | Cychwyn ymateb i dân mewn annedd o fewn 1 funud ar 70% o'r achlysuron ac o fewn 2 funud ar 95% o'r achlysuron. |
| Nifer y peiriannau tân a'r diffoddwyr tân a anfonir at bob tân mewn annedd. | Yr angen i sicrhau bod digon o ddiffoddwyr tân yn cael eu cludo i'r tân mewn annedd gyda digon o offer ar gael iddynt er mwyn gallu ymdrin â'r tân yn ddiogel ac effeithiol yn unol â'r canllawiau ar systemau gwaith diogel ar gyfer aelodau criw. | O leiaf ddau beiriant tân ac wyth diffoddwr tân yn mynd at bob tân mewn annedd[24].<br><br>Bydd y swyddog â gofal am y digwyddiad yn asesu p'un ai i ddod â rhagor o adnoddau, gan ddibynnu ar hyd a lled y tân. |

DRAFT

[23] Byddai gan y Gweithredwr yn yr Ystafell Reoli yn agos ddigon o wybodaeth erbyn hyn i gychwyn y broses o anfon criw allan, er na fyddai'r alwad, o reidrwydd, wedi dod i ben.
[24] Pan nad yw'r tân wedi diffodd eisoes, a'r annedd yn brif leoliad y tân.

Yn amlwg, er y gellid, trwy reoli perfformiad, wella rhai agweddau ar gyfanswm yr amser cyrraedd, mae natur yr ardal yn dylanwadu'n fawr ar rai.

- Mewn ardaloedd mwy gwledig, bydd y pellteroedd hirach i deithio at anheddau yn anorfod yn effeithio ar gyfanswm yr amser a gymerir, ond wrth gwrs cedwir hyn mor fyr ag y bo modd, yn ddiogel, ar gyfer pob ymateb.

- Mewn gwasanaethau gyda chymhareb uwch rhwng gorsafoedd ar gael yn ôl y galw a gorsafoedd criw dydd, bydd yr amser a gymerir i droi allan i'r orsaf ar ôl derbyn neges yn ychwanegol at gyfanswm yr amser.

Cofnodir manylion pob digwyddiad yr aiff y gwasanaethau tân ac achub atynt mewn systemau cyfrifiadurol soffistigedig. Cofnodir yn awtomatig yr amser rhwng pob cam ar gyfer cyrraedd argyfwng, felly os bydd oedi, mae'n gymharol syml gwybod ymhle y cododd y broblem.

Ar yr adegau prin hynny pan fu oedi, bydd y Gwasanaeth yn parhau i ymchwilio i benderfynu beth oedd yr achos, ac i gymryd y camau priodol i leihau'r posibilrwydd fod hynny'n digwydd eto.

Bydd crynodeb o'r achosion hyn, achos yr oedi a'r canlyniadau i breswylwyr yr annedd yn cael ei gyflwyno'n rheolaidd i'r Awdurdod, a'i gyhoeddi yn yr adroddiad perfformiad blynyddol.

Hefyd, bydd y Gwasanaeth yn parhau i ymchwilio bob tro y bydd diffoddwr tân yn cael anaf wrth ddiffodd tân mewn annedd, ac i gymryd camau lle bo'n briodol er mwyn ceisio atal hynny rhag digwydd eto. Bydd cyfradd yr anafiadau difrifol (i'w hadrodd dan Reoliadau RIDDOR) a gafodd diffoddwyr tân mewn digwyddiadau ar yr ochr weithredol, a nifer y shifftiau/diwrnodau gwaith a gollwyd o'r herwydd, yn parhau i gael eu monitro a'u hadrodd yn gyhoeddus.

DRAFT

**<u>Amcan Gwella 2 ar gyfer 2013-14</u>**

**Ceisio ffyrdd i leihau'r gost gyffredinol o redeg y Gwasanaeth bob blwyddyn er mwyn gweithredu o fewn y gyllideb flynyddol.**

- **Pam y dewiswyd hyn yn amcan?**


Yn 2010 penderfynodd yr Awdurdod rewi'r gyllideb refeniw flynyddol ar £32 miliwn am dair blynedd. Rhannwyd hyn yn gyfartal dros y tair blynedd, gan olygu y byddai angen lleihau'r gyllideb flynyddol ryw £800,000 y flwyddyn am dair blynedd.

Mae'r rhagolygon ariannol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn awgrymu y bydd angen gwneud rhagor o arbedion dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, er gwaethaf yr arbedion sylweddol a wnaed eisoes gan yr Awdurdod. Yn anorfod, bydd hyn yn gofyn am arloesi a bod yn ofalus wrth gyflwyno a rheoli unrhyw newidiadau i'r modd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu.

Fel y dangosir isod, mae'r prif wariant yn ymwneud ag atal tanau ac ymateb ar yr ochr weithredol, gyda dim ond canran fechan o'r gyllideb refeniw yn cael ei gwario ar gostau craidd corfforaethol a democrataidd.

DRAFT

**Dosbarthiad Gwariant Net 2012**




Ffynonellau: Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant, Datganiad o Gyfrifon 2011-12

- **Beth yw 'llwyddiant' i'r Awdurdod yn yr amcan hwn?**

Yr her i'r Awdurdod fydd parhau i ddarparu a gwella gwasanaethau heb wario mwy na'r hyn sydd ganddo.

- **Sut y bydd yr Awdurdod yn mesur ac yn monitro cynnydd?**

Mae cyllid yr Awdurdod yn cael ei reoli'n ofalus, ac mae'n agored i reoliadau statudol ac archwiliadau. Hefyd, bydd adroddiadau rheolaidd gan y Trysorydd yn cael eu derbyn a'u hystyried yng nghyfarfodydd yr Awdurdod.

DRAFFT

# LLEIHAU RISG A GWELLA YN 2014-15

Mae gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru hanes o gyflwyno gwelliannau er mwyn cynnig gwasanaethau sydd o well safon, sy'n cynnig mwy o werth am arian ac sy'n effeithlon i bobl Gogledd Cymru.

Mae'n derbyn er hynny fod rhai agweddau heb newid digon – os o gwbl – ac y gallent, o bosib, beryglu gallu'r Gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau ataliol ac ymateb yn y dyfodol.

Dyna pam ei fod yn cynnig edrych ar feysydd penodol gyda'r nod cyffredinol o sicrhau bod modd cynnal gwasanaethau tân ac achub yn llwyddiannus yng Ngogledd Cymru dros yr ugain mlynedd nesaf o leiaf.

Felly, mae'r Awdurdod yn cynnig edrych ar ddau fater penodol dros y misoedd nesaf, gyda'r bwriad o fwydo'r gwaith hwn i mewn i'r Amcanion Gwella ar gyfer 2014-15 a thu hwnt.

## 1. Cwblhau Adolygiad Gwasanaethau Tân ac Achub Cynaliadwy

Mae llawer o Awdurdodau Tân ac Achub – ond yn arbennig y rhai sy'n darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig – yn canfod ei bod yn mynd yn fwyfwy anodd denu a chadw staff sy'n gallu darparu gofal tân a chadw swydd lawn amser gyda'u prif gyflogwr.

Mae'r System Dyletswydd ar gael yn ôl y Galw yn system gydnabyddedig o gyflogi pobl i fod ar gael i ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau tân ac achub. Rhoddir tâl cadw blynyddol iddynt, a ffioedd am droi allan at ddigwyddiadau.

Roedd y system ddyletswydd hon yn addas iawn i'r cenedlaethau a fu gan fod pobl fel arfer yn aros yn eu cymunedau heb deithio'n bell i weithio nac i hamddena. Fodd bynnag, nid felly y mae pethau erbyn hyn, ac mae pobl yn ei chael yn fwyfwy anodd ymrwymo i aros yn agos at eu gorsaf dân leol am hyd at 120 o oriau yr wythnos rhag ofn y bydd eu hangen.

Bydd yr adolygiad yn edrych ar amrywiaeth o opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, gan ganolbwyntio ar gynaliadwyedd a fforddiadwyedd gwasanaethau yn y tymor hir.

DRAFFT

## 2. Dyfeisio cynllun ariannol tair blynedd ar gyfer 2014/15 - 2016/17.

Mae'n hollbwysig rheoli arian yn ofalus er mwyn gallu darparu gwasanaethau tân ac achub. Mae'r Awdurdod eisoes wedi lleihau ei gyllideb £2.4 miliwn rhwng 2011/12 a 2013/14, gan wneud £800,000 o arbedion yn y flwyddyn gyntaf, £800,000 arall yn yr ail flwyddyn, ac £800,000 eto yn y drydedd flwyddyn.

Mae'r sector cyhoeddus yn wynebu cyfnod go ansicr o lai o wariant. Bydd y gwaith o gynllunio i ddarparu gwasanaethau tân ac achub yn dod yn fwyfwy heriol os na fydd yr arian sydd ar gael i redeg y gwasanaeth yn aros gyfuwch â'r cynnydd mewn costau a chynnydd yn y galw.

Bydd yr adolygiad yn edrych ar y costau hysbys ac amcangyfrifiedig, ac yn paratoi'r ffordd i'r Awdurdod allu gosod ei gyllideb flynyddol ar gyfer y tair blynedd ariannol hyn.

Y Camau Nesaf:

Bydd yr Awdurdod yn llunio ei Amcanion Gwella ar gyfer 2014-15, a bydd yn ymgynghori â'r cyhoedd yn eu cylch yn ystod 2013. Fodd bynnag, croesewir sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad hwn er mwyn cynorthwyo i lunio'r ddau ddarn o waith paratoi.

DRAFT

# Adran 4

## CYFEIRIADAU

**Ffynonellau allanol o wybodaeth ddefnyddiol:**

www.statswales.wales.gov.uk
http://www.infobasecymru.net/IAS/

**Dyletswyddau a Deddfwriaeth bwysig**

Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn gweithredu o fewn fframwaith gymhleth o ddeddfau a rheoliadau sy'n cynnwys:

- Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005
- Deddf Argyfyngau Sifil 2004
- Mesur Llywodraeth Leol 2009
- Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru o 2012 Ymlaen

**Cyfraniadau ariannol**

Caiff gwariant refeniw ei ariannu gan gyfraniadau gan y chwe awdurdod unedol cyfansoddol yn ôl eu poblogaeth. Dyma'r cyfrannau yn 2011-12:

| Awdurdod | Cyfraniad 2011/12 | Cyfran |
|---|---|---|
| | £ | % |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 5,240,568 | 16.41 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 3,236,545 | 10.14 |
| Cyngor Gwynedd | 5,588,685 | 17.50 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 4,549,039 | 14.25 |
| Cyngor Sir y Fflint | 7,051,716 | 22.08 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 6,266,101 | 19.61 |
| **CYFANSWM** | **31,932,654** | **99.99** |

DRAFFT

## Staffio

| Ar 31/03/2012 | Swyddi | CLlA | NyG |
|---|---|---|---|
| **Staff gweithredol amser cyflawn**<br>*Mae 76% o'r swyddi hyn mewn gorsafoedd tân. Mae'r gweddill yn swyddi uwch reolwyr (3%) a swyddi arbenigol sy'n cynnwys gwaith hyfforddi ac ataliol.* | 264 | 270 | 270 |
| | | | |
| **Staff gweithredol ar gael yn ôl y galw**<br>*Mae'r holl swyddi hyn mewn gorsafoedd tân.* | 557 | 462.75 | 528 |
| | | | |
| **Staff yr Ystafell Reoli**<br>*Mae 86% o'r swyddi hyn wedi eu lleoli'n llwyr yn yr ystafell reoli. Mae'r gweddill yn swyddi rheolwyr canol ac uwch reolwyr, gan gynnwys hyfforddiant yr Ystafell Reoli a rheoli parhad busnes.* | 28 | 28.5 | 31 |
| | | | |
| **Staff nad ydynt ar yr ochr weithredol**<br>*Mae'r swyddi hyn yn ymwneud ag amrywiaeth o swyddogaethau, gan gynnwys rheoli'r fflyd, cynnal a chadw adeiladau, TGCh, cyllid a chyflogau, hyfforddi, adnoddau dynol, cyfathrebu corfforaethol a gweinyddu. Mae 31% ym maes diogelwch tân a diogelwch tân cymunedol.* | 149 | 140.64 | 154 |
| **Cyfansymiau** | **988.04** | **901.64** | **983** |

CLlA = Cyfwerth â Llawn Amser NyG = Nifer y gweithwyr

DRAFT

## Salwch ac anafiadau ymhlith staff

Yn 2011/12:

- Collwyd cyfanswm o 1,276 o ddiwrnodau neu shifftiau oherwydd absenoldeb salwch tymor byr, a chollwyd 2693 o ddiwrnodau neu shifftiau oherwydd absenoldeb salwch tymor hir. Mae hyn yn cyfateb i 8.9 o ddiwrnodau neu shifftiau am bob person (ac eithrio staff y System Dyletswydd ar gael yn ôl y Galw.)
- Bu 11 o ymddeoliadau ar sail afiechyd yn ystod y flwyddyn.
- Cafodd 31 o ddiffoddwyr tân eu hanafu mewn digwyddiadau ar yr ochr weithredol. Ni chafodd neb anafiadau angheuol, ond cafodd dau anafiadau mawr i'w hadrodd dan Reoliadau RIDDOR. Roedd y 31 anaf hyn yn golygu bod cyfanswm o 216 o ddiwrnodau dyletswydd arferol wedi eu colli oherwydd absenoldeb salwch.

## Gorsafoedd Tân

Mae yna 44 o orsafoedd tân yng Ngogledd Cymru.

- 3 o orsafoedd shifftiau amser cyflawn
- 5 o orsafoedd criw dydd
- 36 o orsafoedd ar gael yn ôl y galw

## Peiriannau Tân

Mae un peiriant tân ar gael yn ôl y galw ymhob gorsaf dân ac eithrio Pwllheli lle mae yna ddau (45).
Hefyd, mae un peiriant tân amser cyflawn ymhob gorsaf shifft amser cyflawn a chriw dydd, ac eithrio Wrecsam lle mae yna ddau (9).

## Lefelau gweithgarwch

Yn 2011/12, fe wnaeth y gwasanaeth:

- Ymdrin â 17,190 o alwadau am gymorth, gyda 7,721 yn rhai lle'r oedd angen troi allan.
- Troi allan at 3,289 o danau, 990 o argyfyngau nad oeddent yn danau, a 3,566 o alwadau diangen.
- Cynnal 28,472 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, rhoi 491 o sgyrsiau diogelwch mewn ysgolion a 138 mewn lleoedd eraill, a mynd i 32 o ddigwyddiadau cyhoeddusrwydd.
- Cynnal 392 o archwiliadau diogelwch tân ar safleoedd.
- Tynnu pobl allan o gerbydau mewn 86 o ddigwyddiadau.

## Ansawdd gwasanaeth

Yn 2011/12, fe wnaeth y gwasanaeth:

- Fynd at 15% o'r holl brif danau mewn llai na 5 munud, 51% rhwng 5 a 10 munud, 23% rhwng 10 a 15 munud, a 11% mewn dros 15 munud.
- Mynd at 20% o'r holl danau mewn anheddau mewn llai na 5 munud, 55% rhwng 5 a 10 munud, 18% rhwng 10 a 15 munud, ac 8% mewn dros 15 munud.
- Cynnal 8,755 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref i bobl arbennig o fregus, gyda'r rhain yn cael eu trefnu'n benodol yn dilyn atgyfeiriad gan un o'r sefydliadau sy'n bartneriaid inni.
- Cyfyngu 91% o'r tanau damweiniol mewn anheddau i'r ystafell lle cychwynnodd y tân.

DRAFT

**Canlyniadau**

| | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 |
|---|---|---|---|
| Tanau | 3,370 | 3,289 | 3,156 |
| Prif danau | 1,485 | 1,346 | 1,296 |
| Tanau mewn anheddau | 545 | 535 | 530 |
| Tanau annomestig | 256 | 229 | 215 |
| Tanau eilaidd | 1,538 | 1,623 | 1,609 |
| Marwolaethau oherwydd tân | 8 | 10 | 8 |
| Anafiadau oherwydd tân | 69 | 97 | 64 |

DRAFFT